Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol:** Adroddiad Blynyddol 2025-26

Gorffennaf 2026




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol:** Adroddiad Blynyddol 2025-26

Gorffennaf 2026

senedd.cymru



# Cynnwys

**Rhagair** ........ **6**

**Ein Perfformiad** ........ **8**

Ein hymrwymiad a'n gwerthoedd ........ 8

**Safonau Gwasanaeth** ........ **9**

Busnes y Senedd ........ 9

Cyfathrebu Allanol ........ 10

Cyfathrebu mewnol ........ 10

Ymgysylltu ........ 10

Digwyddiadau ar ystâd y Senedd ........ 11

Caffael a gweithio mewn partneriaeth ........ 11

Llunio polisi ........ 11

Dyletswyddau Aelodau o'r Senedd ........ 12

Strategaeth sgiliau ........ 12

**Gwybodaeth Ystadegol** ........ **13**

Recriwtio ........ 13

Busnes y Senedd ........ 15

Trafodion ........ 17

**Themâu** ........ **18**

Sgiliau iaith ........ 18

Ethos dwyieithog y sefydliad ........ 18

Dysgu a gwella ........ 19

**Monitro a Chydymffurfio** ........ **21**



**Adam Price AS**
Y Comisiynydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol

# Rhagair

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod pwysig o wneud cynnydd, paratoi a myfyrio. yn y Senedd. Wrth inni nesáu at gychwyn y Seithfed Senedd ac ymateb i newidiadau sylweddol yn sgil Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, bu'n rhaid sicrhau bod ein trefniadau ar gyfer gweithio'n ddwyieithog nid yn unig yn parhau'n gadarn, ond hefyd yn esblygu i ateb gofynion newydd. Drwy gydol y flwyddyn, ein nod oedd cynnal a chryfhau'r egwyddor sylfaenol o drin ein dwy iaith swyddogol,  Cymraeg a Saesneg yn gyfartal ym mhob agwedd ar ein gwaith, gan sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â'r sefydliad yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio eu dewis iaith yn naturiol ac yn ddi-rwystr.

Parhawyd i gefnogi Aelodau i gymryd rhan ym musnes y Senedd yn eu dewis iaith, gan gynnwys darparu dogfennau briffio, hyfforddiant pwrpasol a chefnogaeth i bwyllgorau a chadeiryddion. Datblygwyd hefyd systemau a phrosesau newydd a fydd yn cryfhau'r profiad dwyieithog ymhellach. Roedd rhain yn cynnwys gwell trefniadau ar gyfer cofnodi dewisiadau iaith Aelodau a'u staff, a datblygu systemau ymsefydlu a dysgu cwbl ddwyieithog. Yn ogystal, rydym wedi bod yn paratoi i wneud mwy o'n hystafelloedd yn barod ar gyfer cyfieithu ar y pryd ar draws ystâd y Senedd, gan edrych ymlaen at gynnydd yn y galw am y gwasanaeth yn  y Seithfed Senedd.

Bu ffocws penodol eleni hefyd ar gryfhau sgiliau iaith a hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mae'r ddarpariaeth hyfforddi a'r cymorth sydd ar gael wedi parhau i ddatblygu, gyda chanlyniadau calonogol iawn o ran hyder staff a'u parodrwydd i ddefnyddio ac ymestyn eu sgiliau Cymraeg. Mae hyn yn rhan allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer Senedd wirioneddol ddwyieithog: nid yn unig feddu ar systemau a pholisïau  ond cadarnhau diwylliant sefydliadol lle mae dwyieithrwydd yn rhan naturiol o'r ffordd rydym yn gweithio, yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau.

Wrth gwrs, mae'r flwyddyn hefyd wedi bod yn un o baratoi strategol. Mae'r gwaith o adolygu'r fframwaith ieithoedd swyddogol presennol a datblygu Cynllun newydd ar gyfer y Seithfed Senedd eisoes ar y gweill. Wrth wneud hynny, rydym yn awyddus i sicrhau bod y fframwaith yn addas i'r dyfodol, yn adlewyrchu anghenion y sefydliad a'i rhanddeiliaid, ac yn ein galluogi i ymateb i gynnydd yn y galw am wasanaethau dwyieithog heb gyfaddawdu ar ansawdd. Mae'r adroddiad hwn felly nid yn unig yn cofnodi gwaith y flwyddyn ddiwethaf, ond hefyd yn tystio i'n hymrwymiad i barhau i arwain y ffordd fel deddfwrfa gwbl ddwyieithog.

# Ein Perfformiad

## Ein hymrwymiad a'n gwerthoedd

Mae Senedd Cymru yn sefydliad sy'n gweithredu ar sail ein gwerthoedd, ac mae'r gwerthoedd hynny yn adlewyrchu'r ymrwymiad i sicrhau amrywiaeth ar draws y sefydliad. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog amrywiaeth o fewn ein gweithlu. Gwerthfawrogir ein holl staff, pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, am eu hymrwymiad i'r Senedd a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol. Mae egwyddorion y polisi urddas a pharch wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn disgwyl i bob aelod o staff fod yn ymroddedig i ddarparu cymorth a gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf i Aelodau, eu staff cymorth a'r cyhoedd a hynny yn ein dwy iaith swyddogol.

Prif nod y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yw sicrhau ein bod yn cynnal y safonau uchaf posibl ac yn ymateb yn gadarnhaol i ddisgwyliadau'r sawl sy'n ymwneud â ni. Yn anochel, mae'r newidiadau a ddaw yn sgil Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn golygu y bydd angen i ni edrych o'r newydd ar y fframwaith ieithoedd swyddogol i sicrhau ei fod yn addas i bwrpas a'n bod mewn sefyllfa i barhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf, gyda chynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaethau, a hynny yn ddiofyn.

# Safonau Gwasanaeth

## Busnes y Senedd

Gall Aelodau o'r Senedd baratoi ar gyfer cymryd rhan ym musnes y Senedd yn eu dewis iaith. Mae'r timau integredig ar gyfer y pwyllgorau unigol yn paratoi dogfennau briffio yn unol â dymuniad aelodau'r pwyllgorau o ran iaith ac amseru.  mae'r holl ddogfennau eraill a baratoir gan Gomisiwn y Senedd ar gyfer trafodion y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau yn ddwyieithog, a gall Aelodau ddewis cyfrannu a thrafod yn eu dewis iaith. Mae Aelodau sy'n derbyn cefnogaeth gan y Tîm Ieithoedd Swyddogol yn cael hyfforddiant i baratoi ar gyfer trafodion, a gall Aelodau eraill drefnu sesiynau o'r fath yn ôl y galw hefyd. Bydd hyn yn cynnwys sesiynau i ymarfer ar gyfer cyflwyno datganiad 90 eiliad, gofyn cwestiwn yn y cyfarfod llawn, neu holi tyst mewn cyfarfod pwyllgor. Mae'r tîm hefyd ar gael i weithio gyda Chadeiryddion Pwyllgorau i baratoi ar gyfer cadeirio cyfarfodydd gan ymgorffori ymadroddion a brawddegau Cymraeg ac annog eraill i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg.

Fis Mawrth 2026, cyhoeddodd Fforwm y Cadeiryddion ei adroddiad o Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Diwylliant pwyllgorau;
- Trefniadaeth busnes y pwyllgorau;
- Rhyngweithiadau â phwyllgorau'r Senedd, gan gynnwys gweithio hybrid, cymorth ymchwil, a'r defnydd o'r Gymraeg.

Roedd y Fforwm wedi ystyried yn flaenorol sut i sicrhau y gall pawb sy'n rhyngweithio â'r pwyllgorau wneud hynny yn eu dewis iaith. Fodd bynnag nododd tystiolaeth, er bod gwasanaethau cyfieithu o safon uchel, nad yw'r profiad o gymryd rhan yn y Gymraeg bob amser gyfwerth â chymryd rhan yn Saesneg. Yn benodol, amlygwyd y ddibyniaeth ar glustffonau ar gyfer cyfieithu ar y pryd fel rhwystr i rai cyfranogwyr.

Mynegodd y Fforwm gefnogaeth gref i gamau a allai gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn trafodion pwyllgor. Cytunwyd bod y cynigion a drafodwyd ym mis Gorffennaf 2024 yn darparu sylfaen gref ar gyfer gwaith pellach yn y Seithfed Senedd. Yn sgil y dystiolaeth a ddarparwyd, argymhellwyd bod Comisiwn y Senedd yn archwilio opsiynau ar gyfer gwella'r dechnoleg sy'n cefnogi cyfieithu ar y pryd yn fuan yn y Seithfed Senedd.

## Cyfathrebu Allanol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cwblhawyd proses ar gyfer caffael system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid. Fel rhan o'r system, caiff porthol ei sefydlu. Diben y porthol fydd caniatáu i ddefnyddwyr gofrestru er mwyn defnyddio gwasanaethau megis trefnu teithiau a chysylltu â ni a hynny yn eu dewis iaith. Pan fydd aelod o'r cyhoedd yn cofrestru fel defnyddiwr, bydd cyfle i nodi eu dewis iaith swyddogol, a chaiff yr wybodaeth ei chadw ar broffil yr unigolyn yn y system. Mae modd dewis iaith ar gyfer defnyddio'r porthol, ac ar gyfer unrhyw ffurflenni, a chaiff unrhyw negeseuon e-bost awtomatig eu hanfon yn newis iaith y defnyddiwr wrth lenwi ffurflenni cais am wasanaeth. Os oes angen i'r tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid ymgysylltu ymhellach, defnyddir yr wybodaeth ynghylch dewis iaith yr unigolyn yn eu proffil i sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaeth yn yr iaith briodol.

## Cyfathrebu mewnol

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd, penderfynwyd sefydlu dull o gasglu gwybodaeth am ddewisiadau iaith Aelodau a'u staff. Er mwyn sicrhau ein bod yn casglu'r wybodaeth gan bob Aeloda ac aelod o staff cymorth ar y cyfle cyntaf, penderfynwyd ymgorffori holiadur dewis iaith yn y broses ymsefydlu. Dyluniwyd yr holiadur i gasglu gwybodaeth am ddewisiadau o ran cyfathrebu, dull gweithio a materion yn ymwneud ag offer a systemau TGCh. Caiff yr wybodaeth ei rhaeadru i'r gwasanaethau perthnasol er mwyn sicrhau nad oes angen i Aelod neu aelod o staff cymorth nodi'r wybodaeth eto. Mae cyfle ar y ffurflen hefyd i Aelodau a'u staff nodi lefel eu sgiliau iaith Gymraeg. Bydd y wybodaeth ynghylch sgiliau Gymraeg yn cynorthwyo'r tîm Ieithoedd Swyddogol i gynllunio darpariaeth eang a pherthnasol ar gyfer y Seithfed Senedd.

## Ymgysylltu

Yn ystod y cyfnod yn arwain at etholiadau'r Senedd, mae'n ddyletswydd ar Gomisiwn y Senedd i egluro'r newidiadau a ddaw yn sgil Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, gan annog pobl Cymru i gofrestru i bleidleisio ac i bleidleisio yn yr etholiad. Ers i'r ddeddf ddod i rym, mae'r timau Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Ymchwil wedi bod yn gweithio ar greu ymgyrch a deunydd sy'n darparu'r wybodaeth angenrheidiol. Mae'r timau hefyd wedi datblygu deunydd at ddefnydd Aelodau er mwyn eu cynorthwyo i egluro'r newidiadau i etholwyr, ac i staff Comisiwn y Senedd er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut bydd y newidiadau yn effeithio ar eu gwaith. Datblygwyd yr holl ddeunydd yn

ddwyieithog, gan ddefnyddio iaith addas ar gyfer cynulleidfaoedd targed. Roedd hyn yn cynnwys deunydd ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion ar-lein, a'r cyfryngau traddodiadol.

## Digwyddiadau ar ystâd y Senedd

Gyda dyfodiad y Seithfed Senedd, a'r cynnydd yn nifer yr Aelodau, rhagwelir y bydd angen mwy o leoliadau ar draws yr ystâd lle gellir cynnal cyfarfodydd a darparu cyfieithu ar y pryd. Yn sgil argymhelliad Fforwm y Cadeiryddion a drafodwyd eisoes, penderfynwyd bod angen prynu offer cyfieithu ar y pryd symudol newydd. Mae'r system newydd yn hyblyg ac yn addas ar gyfer anghenion Comisiwn y Senedd. Penderfynwyd hefyd bod angen uwchraddio rhai o ystafelloedd cyfarfod ystâd y Senedd yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth mewn ystafelloedd sydd ar gael i'w cadw ar gyfer digwyddiadau mewnol neu allanol. Bydd ychwanegu at y system sydd ar waith ar hyn o bryd yn golygu bod modd darparu cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau a chyfarfodydd mewn mwy o ystafelloedd ar draws yr ystâd.

## Caffael a gweithio mewn partneriaeth

Eleni, gwelwyd datblygiadau newydd gyda'r system Adnoddau Dynol a Chyflogres wrth i ni roi modiwlau newydd ar waith gan gynnwys y modiwl Adolygiadau Perfformiad i staff y Comisiwn, mae'r system yn parhau i gynnig profiad dwyieithog o'r ansawdd uchaf i ddefnyddwyr, mae'r gwersi a ddysgwyd o gamau cychwynnol y prosiect wedi bod yn werthfawr iawn wrth i ni roi modiwlau neu elfennau ychwanegol ar waith. Fel rhan o'r prosiect i ddatblygu System Rheoli Dysgu (LMS) a phorthol Ymsefydlu. Caiff y ddau eu lansio ar ddechrau'r Seithfed Senedd, a byddant yn gweithredu'n gwbl ddwyieithog ar gyfer defnyddwyr. Bydd hyn yn ehangu'r profiad ar gyfer Aelodau newydd a staff cymorth yn dilyn etholiadau'r Senedd fis Mai.

## Llunio polisi

Yn dilyn ymgynghoriad helaeth, ac yn unol â'r fframwaith llywodraethu polisïau, adnewyddwyd Polisi Recriwtio Comisiwn y Senedd eleni.

Diben adnewyddu'r polisi oedd sicrhau bod dull recriwtio'r Comisiwn:

- Yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth Pobl a Diwylliant a Chynllun y Gweithlu;
- Yn galluogi dull mwy strategol o wneud penderfyniadau recriwtio sy'n

seiliedig ar dystiolaeth;

- Yn cryfhau cysondeb, tryloywder a chynhwysiant mewn arferion recriwtio; ac
- Yn ystyried dysgu gweithredol a'r adborth a gafwyd ar y polisi blaenorol a phroses y Ddogfen Awdurdodi Recriwtio (RAD)

Ymgynghorwyd â'r Tîm Ieithoedd Swyddogol, a gwnaethpwyd rhai addasiadau i'r polisi i gyd-fynd â'r Cynllun. Yn benodol, ychwanegwyd eglurhad o baneli a threfniadau asesu ar gyfer swyddi â sgiliau Cymraeg lefel 4 a 5.

## Dyletswyddau Aelodau o'r Senedd

Wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi adolygu'r Rheolau a Chanllawiau ar gyfer Aelodau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd. Ymgynghorwyd yn helaeth ar y rheolau, a bydd fersiwn diwygiedig o'r rheolau yn cael ei gyhoeddi ar y Wefan. Derbyniwyd sylwadau yn ymwneud â'r cysylltiad rhwng y fframwaith Ieithoedd Swyddogol ac Aelodau a rhannwyd y sylwadau hynny gyda'r Tîm Ieithoedd Swyddogol. Mae'r angen i gydymffurfio â gofynion penodol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn ymwneud â dyletswyddau Aelodau o'r Senedd yn parhau fel rhan o'r rheolau a chanllawiau ehangach ar ddefnyddio adnoddau. Caiff union fanylion y gofynion hynny eu hamlinellu yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Bydd cyfle i Aelodau, Staff Cymorth a'r cyhoedd fynegi barn ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Seithfed Senedd mewn ymgynghoriad fel rhan o'r broses ddrafftio a chymeradwyo.

## Strategaeth sgiliau

Yn unol â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, mae'n ofynnol i Gomisiwn y Senedd amlinellu ei strategaeth ar gyfer sicrhau bod y staff ar y cyd, ac ar draws y meysydd gwasanaeth, yn meddu ar y sgiliau iaith angenrheidiol i alluogi'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol gael ei weithredu. Wrth lunio'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Chweched Senedd, adolygwyd ac ymgorfforwyd y Strategaeth o fewn y Cynllun. Mae hyn wedi gweithio'n dda ac wedi sicrhau bod amcanion y Strategaeth a'r Cynllun yn cael eu hadolygu ar y cyd. Mae mwy o gyfle i Aelodau ddal Comisiwn y Senedd i gyfrif o ran y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog hefyd.

# Gwybodaeth Ystadegol

Yn unol â Safon Gwasanaeth 11.3 y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, mae'n ofynnol i Gomisiwn y Senedd gynnwys gwybodaeth ystadegol yn ei adroddiad blynyddol ar y Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r radd flaenaf ac yn rhoi'r Cynllun ar waith yn gyson ac yn unol â'r holl safonau gwasanaeth a disgwyliadau ein rhanddeiliaid. Darparwyd yr wybodaeth ystadegol o'r flwyddyn flaenorol er gwybodaeth hefyd.

## Recriwtio

***Tabl 1: Nifer y swyddi a hysbysebwyd ar lefel Cymraeg Cwrteisi, neu gyda gofyniad sgiliau iaith uwch***

### Allanol

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 47 | 32 | 0 | 15 |
| **2022-23** | 51 | 34 | 0 | 17 |
| **2023-24** | 34 | 24 | 0 | 10 |
| **2024-25** | 40 | 29 | 0 | 11 |
| **2025-26** | **57** | **37** | **0** | **20** |

### Mewnol

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau* | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 20 | 9 | 0 | 11 |
| **2022-23** | 19 | 13 | 0 | 6 |
| **2023-24** | 27 | 20 | 0 | 7 |
| **2024-25** | 36 | 28 | 0 | 8 |
| **2025-26** | **46** | **31** | **0** | **15** |

## Cyfanswm

| | Swyddi a hysbysebwyd | Lefel Cwrteisi | Cyfuniad o sgiliau * | Lefel 1-5 |
|---|---|---|---|---|
| **2021-22** | 67 | 41 | 0 | 26 |
| **2022-23** | 70 | 47 | 0 | 23 |
| **2023-24** | 61 | 44 | 0 | 17 |
| **2024-25** | 76 | 57 | 0 | 19 |
| **2024-26** | **103** | **68** | **0** | **35** |

## Canrannau

| | Swyddi lefel cwrteisi | Swyddi lefel 1 - 5 |
|---|---|---|
| **2021-22** | 61% | 39% |
| **2022-23** | 67% | 33% |
| **2023-24** | 72% | 28% |
| **2024-25** | 75% | 25% |
| **2025-26** | 66% | 34% |

Caiff lefel y sgiliau iaith sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd ei nodi yng nghynlluniau iaith y gwasanaethau unigol trwy drafodaeth rhwng y Cyd-gysylltydd Ieithoedd Swyddogol, y Pennaeth Gwasanaeth a'r Tîm Ieithoedd Swyddogol. Mae cadarnhau'r gofynion sgiliau iaith ar gyfer pob swydd wag neu swydd newydd yn rhan o'r broses ar gyfer cael caniatâd i hysbysebu gan y Bwrdd Gweithredol.

Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd gostyngiad yn nifer y swyddi lefel 1 – 5 a hysbysebwyd. Mae'r rhan fwyaf o swyddi a hysbysebwyd yn rhai sydd wedi dod yn wag oherwydd bod unigolyn wedi symud ymlaen i swydd wahanol naill ai yn fewnol neu yn allanol. Mae'r swyddi newydd sy'n cael eu hysbysebu fel paratoad ar gyfer y Seithfed Senedd wedi eu hasesu yn unol ag anghenion y rôl a'r gwasanaeth a gosodir gofynion sgiliau iaith yn unol â Chynlluniau Iaith y Gwasanaethau unigol. Gellir gweld wrth i ni nesáu at y Seithfed Senedd, ac wrth i nifer y swyddi a hysbysebir godi, mae canran y swyddi lefel 1-5 a hysbysebir hefyd wedi codi.

## Busnes y Senedd

***Tabl 2: Dogfennau a gyhoeddwyd gan Bwyllgorau'r Senedd yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog ar gyfer y flwyddyn 2025 - 26.***

| Math o ddogfen | Cymraeg | Saesneg | Dwyieithog |
|---|---|---|---|
| **Paratowyd yn fewnol** | | 37 | 1,127 |
| **Ysgrifennydd Gwladol** | | 17 | 7 |
| **Llywodraeth Cymru** | | 30 | 1,422 |
| **Aelodau unigol** | | 6 | 11 |
| **Allanol** | | 618 | 308 |

Mae pwyllgorau'r Senedd yn paratoi pob dogfen sydd i'w chyhoeddi ar wefan y Senedd yn ddwyieithog. Yn unol â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, bydd llythyrau a dogfennau ar gyfer unigolion neu sefydliadau sydd wedi datgan eu dewis iaith yn cael eu paratoi yn yr iaith honno yn unig. Mater i aelodau'r pwyllgorau unigol yw penderfynu ar ba ffurf y caiff dogfennau sydd i'w hystyried gan y Pwyllgor mewn sesiynau preifat (e.e. adroddiadau drafft), a dogfennau briffio i'r Aelodau eu darparu. Mae hyn yn cynnwys iaith y dogfennau hynny. Mae'r aelodau o staff sy'n cefnogi'r Pwyllgorau yn trafod gyda'r Aelodau er mwyn deall eu dulliau gweithio, a sicrhau eu bod yn gallu paratoi ar gyfer cyfarfodydd a chymryd rhan mewn trafodion yn amserol, ac yn eu dewis iaith swyddogol. Yn ystod y broses gynefino ar gyfer Aelodau newydd, byddwn yn cofnodi eu dewis iaith ar gyfer dogfennau briffio a hefyd ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig ac wyneb yn wyneb. Bydd clercod y pwyllgorau yn cadarnhau'r dewisiadau hyn gydag aelodau'r pwyllgorau unigol ac yn trafod dewisiadau manwl gyda chadeiryddion hefyd.

***Tabl 3: Nifer y dogfennau a osodwyd yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog.***

| Blwyddyn | Nifer y dogfennau a osodwyd | Nifer y dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog | Canran |
|---|---|---|---|
| **2021-22** | 930 | 69 | 7% |
| **2022-23** | 885 | 47 | 5% |
| **2023-24** | 777 | 39 | 5% |
| **2024-25** | 811 | 33 | 4% |
| **2025-26** | **1192** | **50** | **4%** |

Mae dogfennau a baratoir gan Gomisiwn y Senedd yn cael eu paratoi a'u gosod yn ddwyieithog. Yn unol â Rheol Sefydlog 15.4 rhaid i unrhyw ddogfen a osodir neu unrhyw fusnes a gyflwynir gan y Llywydd, y Comisiwn, Llywodraeth Cymru, unrhyw bwyllgor neu'r clerc gael ei osod neu ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Mae'r dogfennau na osodwyd yn ddwyieithog eleni yn syrthio i ddau gategori:

- Adroddiadau gan gyrff allanol y mae gofyn i Gomisiwn y Senedd neu Lywodraeth Cymru eu gosod gerbron y Senedd;
- Deddfwriaeth a osodwyd ar ran corff allanol.

***Tabl 4: Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno***

| Blwyddyn | Cwest Llafar | Cwest Ysg | Cynigion | Gwelliannau | Dat Barn | Cwest Amserol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2021-22 (Cym)** | 14% | 4% | 2% | 4% | 10% | 18% |
| **2021-22 (Dwy)** | 0 | 0 | 11% | 11% | 3% | 0 |
| **2022-23 (Cym)** | 15% | 3% | 2% | 0 | 6% | 10% |
| **2022-23 (Dwy)** | 0 | 0 | 51% | 32% | 2% | 0 |
| **2023-24 (Cym)** | 9% | 1% | 3% | 11% | 4% | 6% |
| **2023-24 (Dwy)** | 1% | 0 | 55% | 31% | 2% | 0 |
| **2024-25 (Cym)** | 11% | 9% | 6% | 25% | 1.5% | 7% |
| **2024-25 (Dwy)** | 1.5% | 0.5% | 63% | 32% | 3% | 0% |
| **2025-26 (Cym)** | 11% | 9% | 3% | 38% | 2% | 9% |
| **2025-26 (Dwy)** | 1% | 05.% | 66% | 16% | 4% | 0 |

Gall Aelodau unigol gyflwyno busnes yn eu dewis iaith. Mae hyfforddiant ar gael i Aelodau a staff cymorth sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig, a byddwn yn mynd ati i hyrwyddo'r hyfforddiant ar ddechrau'r Seithfed Senedd

er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus i ddefnyddio'u sgiliau wrth gyflwyno busnes. Gall Aelodau a Staff Cymorth gael rhyngwyneb yn eu dewis iaith wrth ddefnyddio system cyflwyno busnes y Swyddfa Gyflwyno.

## Trafodion

***Tabl 5: Canran y cyfraniadau yn Gymraeg yn nhrafodion y Cyfarfod Llawn, ac mewn cyfarfodydd Pwyllgorau.***

| Math o gyfraniad | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2021-22 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2022-23 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2023-24 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2024-25 | Canran y cyfraniadau Cymraeg 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Trafodion y Cyfarfod Llawn** | 30% | 30% | 28% | 29% | 31% |
| **Trafodion Pwyllgorau** | 12% | 8% | 9% | 9% | 8% |

Gall Aelodau dderbyn cefnogaeth yn eu dewis iaith swyddogol wrth baratoi ar gyfer trafodion y cyfarfod llawn a phwyllgorau, gan gynnwys dogfennau briffio. Mae nifer o faterion allanol yn effeithio ar ganran y cyfraniadau gan gynnwys dewis iaith tystion sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau, a natur lai strwythuredig y trafodaethau mewn cyfarfodydd pwyllgorau.

Ar ddechrau'r Seithfed Senedd, byddwn yn parhau gyda'n hymdrechion i sicrhau bod Aelodau ac eraill sy'n cymryd rhan mewn trafodion yn ymwybodol o'u hawl i ddefnyddio'u dewis iaith mewn trafodion, ac yn hyderus i wneud hynny. Yn ogystal byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau megis hyfforddiant wedi'i deilwra i'r Aelodau sy'n dysgu Cymraeg, dogfennau briffio dwyieithog a geirfaoedd. Bydd unrhyw hyfforddiant neu gyflwyniadau i Aelodau newydd yn pwysleisio natur ddwyieithog busnes y Senedd yn ogystal â chynnig cyflwyniad i faterion ymarferol megis defnyddio'r offer cyfieithu ar y pryd. Byddwn hefyd yn gweithredu yn unol ag argymhelliad Fforwm y Cadeiryddion yn ei adroddiad o Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd bod Comisiwn y Senedd yn archwilio opsiynau ar gyfer gwella'r dechnoleg sy'n cefnogi cyfieithu ar y pryd yn fuan yn y Seithfed Senedd.

.

# Themâu

## Sgiliau iaith

Mae'r ddarpariaeth eang o hyfforddiant a chefnogaeth i'r sawl sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu sgiliau yn parhau, ac eleni mae sawl siaradwr newydd wedi sefyll arholiadau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn dilyn peilot y llynedd cyflwynwyd y Dystysgrif Sgiliau Iaith ar y cyd â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol eto eleni. Mae pedwar ymgeisydd yn gweithio tuag at y cymhwyster eleni, a llwyddodd pob un o ymgeiswyr y llynedd i ennill y cymhwyster. Ymhellach at hynny, mae'r tîm hefyd wedi mabwysiadu'r Modiwl Hyder Cymraeg a ddatblygwyd y llynedd. Nod y modiwl yw cynnig cyfle i siaradwyr Cymraeg wella eu sgiliau Cymraeg llafar, a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'u sgiliau yn y gwaith. Yn dilyn y peilot llynedd. gwerthuswyd y modiwl gan ofyn i'r 11 unigolyn oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant am eu barn. Roedd pawb yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg nid yn unig gyda chydweithwyr ond mewn sefyllfaoedd llai cyfarwydd hefyd. Roedd tua dau draean o'r unigolion yn teimlo eu bod yn meddu ar sgiliau siarad lefel 4 ar ddiwedd y modiwl, wrth gymharu â dim ond dau berson ar y dechrau. Mae'r cynnydd hwn yn galonogol ac yn dangos bod y modiwl wedi cyflawni ei brif nodau. Mae ambell unigolyn hefyd wedi nodi eu bod bellach yn hyderus i wneud cais am swyddi sydd â gofynion sgiliau iaith uwch.

## Ethos dwyieithog y sefydliad

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi diweddaru cynnwys eu sesiynau cynefino ar gyfer staff newydd y Comisiwn a hefyd ar gyfer Staff Cymorth Aelodau. Mae'r tîm hefyd wedi bod yn paratoi ar gyfer y Seithfed Senedd gan gydweithio â'r Tîm Pontio Etholiadol i sicrhau bod gweithio'n ddwyieithog yn rhan annatod o hyfforddiant a sesiynau cynefino Aelodau a'u Staff Cymorth. Nid yn unig bydd cyfle i'r Tîm Ieithoedd Swyddogol ddarparu sesiynau, ond hefyd bydd gweithio'n ddwyieithog a'r gefnogaeth sydd ar gael yn rhan o sesiynau timau eraill ar draws y Comisiwn, er enghraifft, cyngor ar sut i ddefnyddio offer cyfieithu ar y pryd, a sut i gyflwyno busnes yn eu dewis iaith. Fel y soniwyd eisoes, byddwn yn casglu gwybodaeth am sgiliau a dewisiadau iaith Aelodau a'u staff cymorth fel rhan o'r broses ymsefydlu. Bydd hyn yn golygu bod modd i ni deilwra eu profiad yn y Senedd o'r diwrnod cyntaf.

## Dysgu a gwella

Mae rhannu arbenigedd yn parhau yn flaenoriaeth i Gomisiwn y Senedd, ac mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol wedi croesawu nifer o ymwelwyr seneddol a rhyngwladol dros y flwyddyn gan gynnwys ymweliad gan gynrychiolwyr o Senedd Norwy. Roedd y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn arbennig o falch o groesawu ymweliad ar y cyd rhwng Comisiynydd y Wyddeleg Gogledd Iwerddon, Prifysgol Ulster a Phrifysgol Queen's, Belfast fis Chwefror 2026. Roedd yn gyfle i rannu gwybodaeth am waith y Gwasanaeth a gweithio'n ddwyieithog yn y Senedd. Mae ein perthynas â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ni feincnodi a gwella ein gwasanaethau yn arbennig ym maes defnyddio Cymraeg yn y gweithle.

Yn ogystal â'r holl waith paratoi ymarferol, mae'r flwyddyn ddiwethaf hefyd wedi bod yn gyfnod o baratoi yn strategol wrth i ni edrych tua'r Seithfed Senedd. Heb os, mae'r newidiadau a ddaw yn sgil Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 wedi ein hysgogi i edrych o'r newydd ar y fframwaith ieithoedd swyddogol. Rydym yn awyddus i sicrhau ei fod yn addas i bwrpas a'n bod, er gwaethaf cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau, yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog heb eu hail a hynny yn ddiofyn. Cynhaliwyd arolwg o Aelodau a Staff Cymorth y Chweched Senedd i'w holi am y fframwaith presennol, a byddwn yn ymgynghori ymhellach ar ddechrau'r Seithfed Senedd.  Bydd y tîm yn parhau i weithio ar ddatblygu Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Seithfed Senedd, ac yn parhau i ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y Cynllun yn adlewyrchu anghenion y sefydliad a'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r flwyddyn sydd i ddod yn cynnig cyfle i gryfhau ein hymrwymiad i ddwyieithrwydd, ac rydym yn benderfynol o barhau i arwain y ffordd fel deddfwrfa cwbl ddwyieithog.


Crayola

# Monitro a Chydymffurfio

Yn anffodus, tua diwedd 2025, ac wedi ystyriaeth fanwl o sawl mater, gan gynnwys llesiant staff, gwnaed penderfyniad digynsail i beidio â chydymffurfio â gofynion y Cynllun. I'r perwyl hwn, darparwyd dogfennau briffio mewnol i Aelodau pwyllgorau yn Saesneg yn unig, gan ddarparu fersiwn dwyieithog o'r cwestiynau yn unig. Gwnaed y penderfyniad ar sail nifer o ffactorau gan gynnwys:

- absenoldeb staff nad oedd modd ei osgoi;
- nifer uchel o filiau yr oedd angen iddynt gwblhau eu taith drwy'r Senedd cyn yr etholiad;
- cynnydd sylweddol iawn yn nifer y ceisiadau o du'r Gyfarwyddiaeth Fusnes gyda therfyn amser cyfyngedig iawn ar gyfer darparu cyfieithiadau;
- y ffaith nad yw'r dogfennau hyn yn cael eu dosbarthu yn eang, ac nad ydynt o ddefnydd unwaith y bydd y cyfarfod pwyllgor wedi digwydd oherwydd bydd dogfen briffio newydd yn cael ei pharatoi ar gyfer y cyfarfod nesaf;
- diffyg capasiti ymysg y cwmnïau cyfieithu allanol sy'n rhan o'r contract yn ôl y galw.

Cyfathrebwyd ag Aelodau'r pwyllgorau er mwyn rhoi gwybod iddynt, ac roedd modd iddynt drafod ymhellach ag aelodau'r timau integredig sy'n gwasanaethu'r pwyllgorau yn ôl eu dymuniad.

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, wrth gynllunio ar gyfer gwaith y Seithfed Senedd eisoes wedi dechrau rhoi mesurau yn eu lle i liniaru'r risg o ran achos arall o fethu a darparu gwasanaeth cyfieithu testun yn y dyfodol. Trafodwyd gyda thimau eraill ar draws y sefydliad i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r pwysau cynyddol sydd ar y Gwasanaeth, ac er mwyn pwysleisio'r angen i gynllunio ymlaen llaw fel y gall y Gwasanaeth drefnu'r llwyth gwaith yn effeithiol.

Derbyniwyd dwy gŵyn eleni, a llwyddwyd i ymdrin â hwy ar lefel anffurfiol heb orfod symud i'r broses gwyno ffurfiol. Roedd y cwynion yn ymwneud â:

### Darparu hyfforddiant yn Gymraeg i staff Aelodau

Gwnaed cais am hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg gan aelod o Staff Cymorth. Yn anffodus pan hysbysebwyd yr hyfforddiant, nid oedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael. Gofynnwyd i'r Tîm Ieithoedd Swyddogol ymchwilio i'r mater gan yr Aelod oedd yn cyflogi'r staff cymorth. Wedi i'r gŵyn ddod i law, aeth y Tîm Dysgu ac Ymgysylltu â'r Aelodau ati yn syth i ddatrys y broblem gan drefnu sesiwn cyfrwng Cymraeg a'i hysbysebu ar y Fewnrwyd. Tynnwyd sylw'r aelod o staff cymorth oedd wedi gwneud y cais gwreiddiol at y ddarpariaeth newydd hefyd. Aeth y tîm ati i ymchwilio i'w prosesau ar gyfer trefnu a hysbysebu cyrsiau a hyfforddiant, a cheisio dod o hyd i ddatrysiadau pan na fydd darparwyd hyfforddiant yn gallu darparu hyfforddiant yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

### Cwyn Ieithyddol

Daeth cwyn i law gan aelod o'r cyhoedd ynghylch tudalen ar wefan y Senedd lle nad oedd y llythrennau ŵ ac ŷ yn ymddangos yn gywir. Nodwyd y dylai'r Senedd sicrhau bod unrhyw feddalwedd neu ffontiau a ddefnyddir gan Gomisiwn y Senedd i greu'r wefan allu ymdrin â holl nodau'r iaith Gymraeg. Awgrymwyd nad oeddem yn trin y ddwy iaith yn gyfartal trwy gyhoeddi tudalen gyda'r nodau wedi'u harddangos yn anghywir. Ymchwiliwyd i'r dudalen o dan sylw, a daethpwyd o hyd i broblem wrth gyhoeddi. Cywirwyd y gwallau gan sicrhau bod y nodau yn ymddangos yn gywir, ac atgoffwyd staff y pwyllgorau sy'n cyhoeddi ar y wefan ynghylch yr angen i wirio pob peth a gyhoeddir ar ôl cwblhau'r broses.

Fel rhan o’r un gŵyn hefyd, nodwyd ein bod wedi derbyn a chyhoeddi llythyr uniaith Saesneg gan sefydliad sy’n destun Safonau’r Gymraeg. Tynnwyd sylw’r achwynydd at Safon Gwasanaeth 2.12 sy’n nodi:

> *“Rhaid i holl gynnwys gwefan y Senedd a lunnir gan Gomisiwn y Senedd fod yn ddwyieithog. Caiff dogfennau trydydd parti (ac eithrio’r dogfennau a nodir yn 1.4 uchod), neu ddogfennau a gyhoeddir er gwybodaeth sydd wedi eu llunio yn newis iaith trydydd parti eu cyhoeddi yn yr iaith honno yn unig.”*

Cadarnhawyd nad yw Senedd Cymru yn gyfrifol am fonitro gofynion safonau sefydliadau eraill nac am sicrhau cydymffurfiaeth.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales